

## **RHAGLENNI GWAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU 2021/22** **PWYLLGOR CRAFFU – CYLLID A CHYFLAWNIAD**

*Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor: Pobl (Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus), Lleoedd (Creu Lleoedd lle mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae ynddyn nhw) a Ffyniant (Galluogi Ffyniant er mwyn creu'r cyfle i bobl a busnesau: fod yn arloesol; bod yn entrepreneuriaidd; a chyflawni eu potensial a ffynnu), yn ogystal â'r egwyddor allweddol o 'Fyw o fewn ein Hincwm'.*

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig wedi'i hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu roi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithrediad argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Thrigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yng ngwaith datblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

Dyddiad/Amser	Nod cyffredinol	Swyddog	Aelod o'r Cabinet	Craffu yn canolbwyntio ar...
<b>Ddydd Mawrth 20 Gorffennaf 2021, 5pm</b>	Rhaglen Waith 2021/22	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cynghorydd Bevan, Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai	<b>Craffu a Her –</b> Trafod eitemau ar gyfer Rhaglen Waith Blwyddyn y Cyngor 2021/22.
	Adroddiad Cyflawniad Chwarter 4	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Aelodau'r Pwyllgor i drafod Adroddiad Cyflawniad Chwarter 4 y Cyngor (2020/21)
	Y Diweddaraf am y Strategaeth Dwristiaeth Ddrafft	Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu	Y Cynghorydd Bevan Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai	I aelodau'r Pwyllgor dderbyn diweddariad mewn perthynas â Strategaeth Dwristiaeth y Cyngor.
<b>Dydd Mercher 8 Medi 2021, 5pm</b>	Hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys	Darparwr Allanol - AirlingClose	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Derbyn trosolwg o swyddogaethau Rheoli'r Trysorlys. Bydd hyn yn cael ei ddarparu gan Airlingclose (Ymgynghorwr y Cyngor ar faterion Rheoli'r Trysorlys). Nod hyn yw cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau

	Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys	Pennaeth Materion Cyllid: Addysg ac Adrodd ar Faterion Ariannol	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Aelodau'r Pwyllgor yn i drafod Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys y Cyngor 2020/21
	Deall Cyllideb y Cyngor	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Darparu trosolwg o Gyllideb Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2021/22 a'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd (2021/22 i 2023/24)
	Adroddiad monitro blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol	Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu	Cynghorydd R Bevan Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai	Bydd y Pwyllgor Craffu yn cynnal gwaith cyn craffu ar Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.
<b>Dydd Iau, 21 Hydref 2021, 5pm</b>	Adroddiad Cyflawniad Chwarter 1	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Aelodau'r Pwyllgor i drafod Adroddiad Cyflawniad Chwarter 1 y Cyngor (2021/22)
	Ymgysylltu mewn perthynas â Chyllideb y Cyngor	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Derbyn trosolwg o ddull y Cyngor o gynnal proses ymgynghori i drafod Cyllideb 2022/23
	Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021/22 hyd at 2024/25	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Aelodau'r Pwyllgor i drafod Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021/22 i 2024/25 y Cyngor (wrth baratoi i'r Pwyllgor roi adborth, fel ymgynghorydd ar broses Ymgynghori Cyllideb y Cyngor, mewn cyfarfod(ydd) yn y dyfodol yn ystod y flwyddyn)

	Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor - <i>ER GWYBODAETH (Eitem Eithriedig)</i>	Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Aelodau'r Pwyllgor i drafod diweddariad dros dro i'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol
	Grantiau Adfywio	Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Cyfle i'r Aelodau graffu ar effaith ailffocysu ac adolygu'r Grantiau Adfywio Busnesau.
<b>Dydd Mawrth, 30 Tachwedd 2021, 5pm</b>	Ymgynghori ar Gyllideb 2022/23 (Cam 1)	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor roi eu barn yn rhan o broses Ymgynghori ar Gyllideb 2022/23.
	Adroddiad Cyflawniad Chwarter 2	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Aelodau'r Pwyllgor i drafod Adroddiad Cyflawniad Chwarter 2 y Cyngor (2021/22)
	Y Strategaeth Ddigidol	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Digidol a TGCh	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn diweddariad mewn perthynas â Strategaeth Dwristiaeth y Cyngor.
<b>Dydd Mercher 2 Chwefror 2022, 5pm</b>	Ymgynghori ar Gyllideb 2022/23 (Cam 2)	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas â Strategaeth y Gyllideb 2022/23 (drafft) sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cabinet
	Adroddiad Canol Blwyddyn Cylch Rheoli'r Trysorlys 2021/22	Pennaeth Materion Cyllid: Addysg ac Adrodd ar Faterion Ariannol	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion	Ystyried Adroddiad Canol Blwyddyn Cylch Rheoli'r Trysorlys 2021/22

			Gwasanaethau Corfforaethol	
	Y diweddaraf ynghylch 'Rhaglen Kickstart' Rhondda Cynon Taf	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned	Y Cynghorydd Rhys Lewis, Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol	Rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn diweddariad mewn perthynas â Strategaeth Dwristiaeth y Cyngor.
<b>Dydd Iau, 17 Mawrth 2022, 5pm</b>	Adroddiad Cyflawniad Chwarter 3	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	Aelodau'r Pwyllgor i drafod Adroddiad Cyflawniad Chwarter 3 y Cyngor (2021/22)
	Diweddariad - Strategaeth Canol Trefi	Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu	Y Cynghorydd R Bevan Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai	Rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn diweddariad mewn perthynas â Chanol Trefi ledled y Fwrdeistref Sirol.
	Strategaeth Gweithgynhyrchu RhCT	Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu	Y Cynghorydd R Bevan Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai	Rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor gael diweddariad mewn perthynas â Strategaeth Dwristiaeth y Cyngor.

#### Anghenion Hyfforddi:-

- Hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys - Airlingclose